## ATODLEN 2

### Diwygio Is-ddeddfwriaeth nad yw ym maes Addysg

*Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005*

**15.**—(1) Diwygir Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005([**1**]) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(3) hepgorer y diffiniad o "awdurdod addysg lleol".

(3) Yn rheoliad 3(3) hepgorer is-baragraff (c).

(4) Yn rheoliad 6(1)(c) yn lle'r geiriau "awdurdod addysg lleol" rhodder "awdurdod lleol arall".

(5) Yn rheoliad 11(3), yn lle'r geiriau "awdurdod addysg lleol" rhodder "awdurdod lleol arall".

(**1**) O.S. 2005/1513 (Cy.117) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2008/1879.